LLUNIO CYNLLUNIAU

- Dylech gynnwys lluniau graddfa gywir gyda phob cais. Dylent fod ar raddfa o 1:50 o leiaf.

- Derbynnir lluniau ar raddfa lai (1:100, 1:200 neu 1:500) dim ond lle mae gofyn am hyn oherwydd maint yr adeilad. Er enghraifft, byddai lluniau ar raddfa lai'n dderbyniol lle na fyddai gweddluniau neu gynlluniau llawr o 1:50 yn ffitio ar bapur A1. Mewn unrhyw achos, byddai angen darparu lluniau o fanylion penodol ar raddfa o 1:50 o leiaf gyda lluniau ar raddfa lai.

- Dylai fod lluniau a chynlluniau o'r sefyllfa BRESENNOL ac ARFAETHEDIG.

- Dylai lluniau ddangos yr eiddo cyfan.

- Mae'n bosibl y bydd gofyn gweld y cynnig mewn perthynas ag adeiladau cyfagos. Dylid dangos y rhain hefyd felly.

- Dylech roi rhif unigryw i bob llun yn eich cais cynllunio e.e. 12/3.

- Dylid nodi unrhyw ddiwygiadau i'r lluniau hyn yn glir gyda rhif neu lythyren newydd e.e. 12/3. A.

- Dylai fod gan bob llun deitl e.e. 'Cynllun Arfaethedig o'r Llawr Cyntaf' neu 'Gweddlun Blaen Presennol'.